

Gall dysgu yn yr awyr agored wella cyrhaeddiad academaidd plant

Dengys tystiolaeth o bob cwr o'r byd bod dysgu yn yr awyr agored yn hyrwyddo cyrhaeddiad academaidd trwy ddysgu arbrofol, ymarferol a thrwy gyfoethogi prosesau gwybyddol ac emosiynol sy'n bwysig i ddysgu.

Mae'r amgylchedd naturiol yn darparu ar gyfer dyfodol llwyddiannus trwy gyfoethogi'r dysgu a'r profiadau ar draws y cwricwlwm.

Mae mannau naturiol yn annog dysgu wedi'i arwain gan y plentyn, mannau i'w harchwilio, bodloni heriau a rheoli risg, gan arwain at ddinasyddion mwy gwydn.

Mae amgylcheddau naturiol yn fannau bywiog a hyblyg sy'n ymatebol i ddi-ddordebau a galluoedd pob plentyn.

Mae bod yn yr awyr agored yn meithrin dysg ehangach, go iawn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, trwy brofiadau diddorol, hwyliog a chyffrous.

Mae bod mewn mannau gwyrdd yn cefnogi dysgwyr i ganolbwyntio, bod yn greadigol, datrys problemau a meddwl yn gritigol.

Amgylchedd dysgu mwyaf Cymru a'r gorau yn holistaidd yw ei hawyr agored gwych!

Mae mannau awyr agored yn darparu ar gyfer gwahanol alluoedd dysgu ac arddulliau dysgu.

Cysylltwch:

Am wybodaeth am hyn a buddion ehangach cysylltu â natur:
www.naturalresourceswales.gov.uk

Mae tystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r graffeg hwn wedi'i dynnu o CNC, Llywodraeth Cymru, GIG, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, BBC, NCBI, Forestry Commission Scotland.

Diben **Cyfoeth Naturiol Cymru** yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn ei holl waith. Golyga hyn gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella lles Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

Datganiad fformat amgen:

Print mawr neu iaith arall, cysylltwch â:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000